

Owner/ Occupier

Ref:PR147/Deganwy/Ops/LR

2 September 2021

Hello

Please help us look after the environment by checking your foul water connections

One of the main things we do at Welsh Water is provide you with a first-class wastewater service to take away the wastewater you flush away or wash down the sink.

Most properties have a drainage system which takes away waste from our homes through a series of pipes which connect to our foul sewers and is treated at one of our waste water treatment works, where it is cleaned and returned to the river or sea. Occasionally properties have what we call a misconnection, which is where the waste water is incorrectly connected to clean rainfall drains which is untreated sewage and goes directly into the watercourse or sea. This causes pollution and odour.

Recent work undertaken by Welsh Water and Conwy CBC has identified that this is occurring in the wider catchment area of Deganwy, so this now requires a further focused investigation to locate the source of the problem.

Protecting the environment is very important to us and we take pollution complaints very seriously. We suspect some properties are miss connected to the surface water system in the area and you may have seen us carrying out investigation work in your area as a result.

We are now asking customers who may have had a recent new foul connection due to having an extension built (or any other building work that may have altered the original drainage from the property), to ask a plumber to check if their drainage pipework is connected correctly. Making sure you are connected correctly to the mains sewer is the responsibility of the home owner.

You can find out more about this issue at connectright.org.uk or please contact us on 0800 0853968 if you would like further advice and guidance.

Yours sincerely,

Catrin Jones

Network Manager

Y Perchennog/Meddiannydd

Cyf:PR147/Deganwy/Ops/LR
02 Medi 2021

Helo

Helpwch ni i warchod yr amgylchedd trwy archwilio'ch cysylltiadau dŵr budr

Un o'r prif bethau rydym ni yn Dŵr Cymru yn eu gwneud yw darparu gwasanaeth o'r safon uchaf i ymdrin â'r dŵr gwastraff rydych yn ei fflysio o'r tŷ bach neu yn ei olchi i lawr y sinc.

Mae gan y rhan fwyaf o gartrefi system ddraenio sy'n cario dŵr gwastraff trwy gyfres o bibellau sy'n cysylltu â'n carthffosydd ni. Yna caiff ei drin a'i lanhau yn un o'n gweithfeydd trin dŵr gwastraff ni a'i arllwys yn ôl i afon neu i'r môr. Weithiau, mae yr hyn a elwir yn 'camgysylltiad' yn digwydd lle mae draen dŵr gwastraff yn cael ei gysylltu mewn camgymeriad â draeniau dŵr glaw glân ac mae carthion heb eu trin yn cael eu harllwys yn syth i gwrs dŵr neu i'r môr.

Mae hyn yn achosi llygredd a drewdod. Mae gwaith a wnaed gan Dŵr Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ddiweddar wedi canfod bod hyn yn digwydd yn y dalgylch ehangach ac felly mae angen ymchwilio'n benodol i weld o ble mae'r broblem yn dod.

Mae gwarchod yr amgylchedd yn bwysig iawn i ni ac rydym yn rhoi pwys mawr ar gwynion am lygredd. Rydym o'r farn bod rhai adeiladau wedi'u camgysylltu â'r system dŵr wyneb yn yr ardal ac efallai'ch bod wedi'n gweld ni yn cynnal ymchwiliadau i hynny yn eich ardal chi.

Rydym yn gofyn yn awr i gwsmeriaid sydd wedi cael cysylltiad dŵr budr newydd yn ddiweddar i ofyn i blymer gynnal archwiliad i weld a yw pibellau eu draeniau wedi'u cysylltu'n iawn. Gallent fod wedi cael cysylltiad dŵr budr newydd gan eu bod wedi cael estyniad i'w cartref neu waith adeiladu arall sydd wedi newid system ddraenio wreiddiol yr adeilad. Cyfrifoldeb perchnogion cartrefi yw sicrhau eu bod wedi'u cysylltu'n iawn â'r brif garthffos.

Cewch wybod mwy am y mater hwn yn connectright.org.uk neu gallwch gysylltu â ni ar 0800 0853968 os hoffech ragor o gyngor ac arweiniad.

Yn gywir,

Catrin Jones
Rheolwr y Rhwydwaith